PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.inf.aber.ac.uk/cymraeg

# Gwasanaethau Gwybodaeth
# NEWYDDION

BUDDSODDWYR MEWN POBL

http://www.inf.aber.ac.uk/news/cymraeg/isnews.asp

**Mai 2009**

Ceir yn y fersiwn brintiedig hon o Newyddion GG ond ychydig o'r eitemau newyddion yn llawn, ynghyd â nifer o gyflwyniadau byr i eraill a geir yn eu cyfanrwydd yn y fersiwn ar-lein. Ceir yno hefyd ôl-rifynnau o Newyddion GG ynghyd ag eitemau ac erthyglau diweddar nas ceir yn y fersiwn brintiedig hon.

## Ymddeoliad Dr Mike Hopkins

Yn gynnar yn 1995 penderfynodd Prifysgol Aberystwyth ymdrin o'r newydd â rheoli a chyflwyno gwasanaethau gwybodaeth gan ddod â'r Uned Gyfrifiaduron, Llyfrgell y Brifysgol a'r Uned Gwasanaethau Clyweled at ei gilydd i ddarparu gwasanaeth integredig newydd. Crëwyd swydd newydd – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth – a fyddai'n gyfrifol am ddatblygu'r gwasanaeth hwn. Penodwyd Dr Mike Hopkins, Dirprwy Lyfrgellydd ym Mhrifysgol Technoleg Loughborough cyn hynny, yn Gyfarwyddwr ym mis Mai 1995 a chychwynnodd ar ei swydd ym mis Hydref 1995.

Bellach, 14 blynedd yn ddiweddarach, ac yntau wedi cyflawni nod y Brifysgol o greu adran integredig, gytûn ac unedig, mae Mike wedi penderfynu ymddeol a bydd yn gadael ar 31 Mawrth 2009. Ei fwriad yw treulio mwy o amser yn ceisio perffeithio'i swing golff a chadw'i ardd helaeth dan reolaeth. Gwelir ei golli'n fawr gan aelodau Gwasanaethau Gwybodaeth, boed y rheiny o gefndir Llyfrgell, Cyfryngau neu TG, ac rydym i gyd yn dymuno'n dda iddo ar gyfer ymddeoliad hir a llwyddiannus.

Roger Matthews, Cyfarwyddwr Dros Dro (rfm@aber.ac.uk)

## Pentre Jane Morgan

Yn dilyn llwyddiant arddull anffurfiol ystafell gyfrifiaduron Lolfa Rosser, mae creu ail ardal o'r fath ar y gweill ar hyn o bryd ym Mhentref y Myfyrwyr. Mae'r ardal lle'r oedd y bar gynt ym mloc mwynderau PJM yn cael ei hailwampio'n llwyr i gynnig eisteddle cyffyrddus ar gyfer defnyddio gliniaduron diwifr, ardaloedd gwaith grŵp, yn ogystal â'r Cyfrifiaduron Personol soffistigedig, sefydlog a mwy traddodiadol.

Y gobaith yw y bydd y lle newydd hwn ar agor erbyn tymor yr haf, a phryd hynny bydd yr ystafell gyfrifiaduron bresennol yn yr un adeilad yn cael ei chau.

Jeremy Perkins, Isgyfarwyddwr, Gwasanaethau TG Canolog (jwp@aber.ac.uk)

## Penodiad Cyfarwyddwr Newydd Gwasanaethau Gwybodaeth

Penodwyd Ms Rebecca Davies, pennaeth presennol Gwasanaeth Llyfrgell ac Ymholiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn olynydd i mi i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gwybodaeth o 18 Mai 2009. Enillodd Radd o Brifysgol Aberystwyth mewn Llyfrgellyddiaeth ac Addysg, ac wedyn Dystysgrif Addysg i Raddedigion.
Yn ogystal, mae Rebecca wedi dal swyddi proffesiynol yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin a Phrifysgol Abertawe. Er ei bod yn cyrraedd ar adeg heriol, bydd Rebecca'n sylweddoli'n fuan iawn ei bod wedi etifeddu gwasanaeth a gyflwynir gan grŵp o staff proffesiynol iawn ac sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan staff a myfyrwyr fel ei gilydd. Rwy'n dymuno'r gorau i Rebecca, Gwasanaethau Gwybodaeth a'r Brifysgol i'r dyfodol a diolchaf i bawb am y gefnogaeth a dderbyniais yn gyson yn ystod y 14 blynedd diwethaf.

Dr Mike Hopkins

## CADAIR ac EThOS

Ar y cyfrif diwethaf roedd gan CADAIR – cadwrfa Aberystwyth – 1,806 eitem ynddi. Mae tua 30% o'r rhain yn destunau llawn, ac mae gan y rhan fwyaf o'r 70% arall ddolenni uniongyrchol i Pdfs a gwefannau cyhoeddwyr. O gymharu â chadwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig, mae hon yn ganran iach iawn o eitemau testun llawn, ac o gael copïau digidol ôl-weithredol o draethodau, bydd y canran yn codi. Caiff y traethodau PhD hyn eu gyrru o EThOS, ac mae Aberystwyth wedi cael 30 cais gan sefydliadau addysg uwch eraill y DU. Unwaith y bydd y rhain wedi'u digideiddio gan EThOS, bydd CADAIR, ynghyd ag ymchwilwyr eraill, yn elwa'n fawr o fedru eu lawrlwytho'n hawdd. Felly hysbyseb dda i Brifysgol Aberystwyth a diddordeb iach ynddi.

Nicky Cashman, Ymgynghorydd Cadwrfa (nnc@aber.ac.uk)

## Cyllidebau'r Llyfrgell

Bydd darllenwyr brwd colofn wythnosol Laurie Taylor yn y *Times Higher* yn siŵr o gofio'i adroddiad diweddar ynghylch ymweliad â Phrifysgol Poppleton gan "Dave Bonanzer, the CEO of Cash-machine plc, one of the world's leading publishers of academic journals"! Er nad oes gobaith i Aberystwyth ddenu ymweliad personol gan enwogion o'r fath, rydym yn derbyn tystiolaeth yn rhy aml o lawer ein bod yn rhoi mwy a mwy arian i gefnogi eu bodolaeth. Ar adeg ysgrifennu hwn (Mawrth 2009) mae gwariant perthnasol y llyfrgell ar lyfrau a chylchgronau o 2008/9 ryw 28% yn uwch na'r un cyfnod y llynedd. Mae'r gyfradd chwyddiant a ddaw o Swets – ein prif asiant cylchgronau – yn fwy na 15% ar gyfartaledd y sesiwn hwn, heb sôn am orfod ystyried amrywiadau ychwanegol ym mhris cyfnewid arian tramor wrth i sterling barhau i syrthio yn erbyn yr ewro a'r ddoler. I rai o'n prif gyflenwyr fel Elsevier, lle daw'r biliau mewn ewros, mae costau ychwanegol y sesiwn hwn wedi bod yn llawer mwy na 30%. Gan ein bod yn wreiddiol wedi cyllidebu cynnydd gwario o 10% am y flwyddyn ar ddeunydd llyfrgell, fel llawer o brifysgolion eraill, roeddem eisoes yn ymwybodol y byddai gennym broblemau difrifol ac rydym wedi bod yn ddiolchgar am ychwanegiad unigol o £30k y cytunwyd arno gan yr Is-Ganghellor i helpu i lenwi'r prinder cyfredol.
Yn anffodus mae'r sefyllfa trosi arian tramor wedi parhau i waethygu yn y misoedd diwethaf, ac ar ben hynny rydym wedi'n clymu i nifer o gytundebau cylchol â chyhoeddwyr mawr fel Elsevier ac Wiley/Blackwell i gael mynediad electronig i'w rhestrau cylchgronau, a gwyddom y bydd cynnydd blynyddol o 5% neu 6% yn y prisiau cyn sôn am newid yn y cyfraddau cyfnewid. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried y fformiwla derbyn deunyddiau a gytunwyd â'r cyfadrannau sawl blwyddyn ôl, er mwyn gweld a oes modd gwneud rhywfaint o newidiadau i gyllidebau flwyddyn nesaf er mwyn gwneud lle i'r ymrwymiadau hyn y gwyddys amdanynt, ond ymddengys yn annhebygol y gallwn osgoi gostyngiadau pellach mewn gwariant ar gylchgronau oni bai ein bod yn gallu gweld cyfran gynyddol o'n dyraniad llyfrgell wedi'i glymu i gefnogi'r farchnad gyhoeddi fasnachol.
Yn yr hirdymor, dylem yn sicr ddigon annog symud fwyfwy tuag at gyhoeddi mynediad agored gan academyddion mewn cadwrfeydd fel CADAIR er mwyn sicrhau bod ffrwyth gwaith a ariannir yn gyhoeddus ar gael yn haws i bawb.

Bill Hines, Isgyfarwyddwr Gwasanaethau Llyfrgell a Chynghori (whh@aber.ac.uk)

## Gwella E-ddysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth

Cafodd E-ddysgu yn Aberystwyth hwb sylweddol o £111k, diolch i gyllid oddi wrth brosiect Gwella Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).
Nod Gwella yw helpu sefydliadau addysg uwch Cymru i weithredu Strategaeth Gwella Dysgu ac Addysgu trwy Dechnoleg y cyngor cyllido. Dan ambarél Gwella, bydd PA yn rhedeg nifer o brosiectau sy'n anelu at integreiddio e-ddysgu ym mhroses gyffredinol dysgu ac addysgu'r brifysgol. Mae Gwella yn mynd i'r afael â blaenoriaethau sefydliadol megis ymrwymiad myfyrwyr, eu recriwtio a dal gafael arnynt, ehangu cyfranogiad a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
Bydd prosiectau yn Aberystwyth a gyllidir gan Gwella yn canolbwyntio ar bum maes: datblygiad a lledaenu arfer da; e-asesu; dysgu a gyfoethogir gan dechnoleg; ymrwymiad myfyrwyr; polisi a threfniadaeth. Mae staff Gwasanaethau Gwybodaeth, yn enwedig y Tîm E-ddysgu, yn cymryd rhan flaenllaw yn Gwella a byddant yn arwain y ffordd mewn gweithgareddau'n ymwneud â'r pum maes a restrwyd uchod.
Un enghraifft, sydd eisoes ar droed, yw'r dysgu a gyfoethogir gan dechnoleg. Defnyddiwyd cyllid Gwella i brynu set o offer Web 2.0 ar gyfer Blackboard. Gyda'r rhain, gall tiwtoriaid gynnwys blogiau, Wikis a phodcastio yn uniongyrchol yn eu cyrsiau Blackboard. Eisoes sefydlwyd cyrsiau hyfforddi cysylltiedig yn y tri chyfarpar newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2008/9 a byddant yn dal i gael eu cynnig mewn ymateb i anghenion staff.

I ganfod mwy am Gwella ewch i'r blog ar http://gwella.aber.ac.uk/blog/

Kate Wright, Swyddog Datblygu E-ddysgu (kaw@aber.ac.uk)

## Mae Blackboard 9 ar y gorwel

Yn ddiweddar cafodd fersiwn Blackboard 9 ei ryddhau ac mae'r Tîm Blackboard yn dechrau'r broses o'i werthuso. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n trefnu i uwchraddio'r system dros yr haf. Bydd hyfforddiant addas ar gael i helpu defnyddwyr Blackboard i symud i'r fersiwn newydd. Hefyd byddwn yn rhoi'r manylion diweddaraf i'r defnyddwyr am bob cam o'r prosiect. Os hoffech ychwanegu'ch enw at restr bostio Defnyddwyr Blackboard, neu drafod y symudiad i Blackboard 9, cysylltwch â'r Tîm Blackboard bb-team@aber.ac.uk

Kate Wright, Swyddog Datblygu E-ddysgu (kaw@aber.ac.uk)

## Prosiect Ymestyn Rhwydwaith Cadwrfeydd Cymru

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi cael £260,000 gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) i gefnogi Prosiect Gwella Rhwydwaith Cadwrfeydd Cymru fel rhan o'u Rhaglen Gadwrfeydd genedlaethol. Bydd Prifysgol Aberystwyth yn gweithredu fel partner arweiniol yn y cynllun sydd newydd gael cyllid. Elfen o'r cynllun fydd cydweithio â holl Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd y prosiect yn rhedeg o'r 1af o Ebrill 2009 tan yr 31ain o Fawrth 2011 a bydd yn ceisio cryfhau gwaith rhaglenni sydd wedi cael cyllid gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth yn y gorffennol. Yn eu plith mae Prosiect Cymorth Cadwrfeydd y Deyrnas Gyfunol a Phrosiect Cychwyn Rhwydwaith Cadwrfeydd Cymru, sydd wedi helpu i roi Aberystwyth ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y maes hwn yn y Deyrnas Unedig.
Bydd tîm y prosiect yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio model cydweithredol a fydd yn cael ei reoli'n ganolog er mwyn cyflymu'r broses o ddatblygu gwasanaethau cadwrfeydd ac annog Sefydliadau Addysg Uwch Cymru i'w defnyddio. Bydd y tîm hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gael swyddfa adneuon gyfryngol er mwyn cynorthwyo gyda'r cynnydd yn nifer y cadwrfeydd sydd newydd eu creu gyda chanlyniadau ymchwil academaidd priodol. Bydd rhan arall o'r prosiect yn gweithio ar greu Gwasanaeth Cynaeafu Traethodau Ymchwil i Gymru mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, gan ddatblygu ar raglen beilot gynharach a alwyd yn Bont Cadwrfeydd. Bill Hines fydd yn cyfarwyddo'r prosiect a Rheolwr y Prosiect fydd Jackie Knowles, a bydd Hannah Payne yn cynorthwyo fel Swyddog Prosiect ynghyd â Swyddog Technegol arall sydd newydd ei benodi. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Jackie Knowles (jak@aber.ac.uk).
'How the west was won',erthygl sy'n cynnwys mwy o wybodaeth am RhCC ar gael ar: http://hdl.handle.net/2160/1882. Gwefan RhCC: http://whelf.ac.uk/wrn/index.shtml

Hannah Payne, Swyddog Prosiect, Prosiect Cymorth Cadwrfeydd (hep@aber.ac.uk)

## Cytundebau Ffonau Symudol a Band Llydan Symudol

Gall Gwasanaethau Gwybodaeth ddarparu ffonau symudol a band llydan symudol i staff ac adrannau'r Brifysgol trwy gytundeb cystadleuol ag Orange. Mae Smartphones, sydd ar gael trwy'r cytundeb hwn, yn gallu cysylltu i Microsoft Exchange ar gyfer e-bost a chydamseriad calendr. Mae band llydan symudol yn galluogi gliniaduron i gysylltu i'r Rhyngrwyd pan fyddwch allan o'r swyddfa ac i ffwrdd o rwydweithiau WI-FI (yn amodol ar gysylltedd 3G). Am fwy o fanylion, gweler http://www.inf.aber.ac.uk/telephony/mobile.asp

Tim Davies, Rheolwr Systemau Pendesg (tid@aber.ac.uk)

## Diwrnod y Llyfr 2009

Mynychodd dros 100 o ddefnyddwyr y llyfrgell ddigwyddiad llwyddiannus yn Llyfrgell Hugh Owen. Gwahoddwyd ymwelwyr i roi cynnig ar y darllenwyr E-lyfrau diweddaraf neu i ddod â llyfr i'w gyfnewid yn ein ffair cyfnewid llyfrau.
Profodd y darllenwyr E-lyfrau yn boblogaidd iawn a chyfareddwyd nifer o ymwelwyr gan y dyfeisiadau newydd. Roedd myfyrwyr yn hoffi'r syniad o gael llyfrgell gyfan yn eu pocedi ac fe'u synnwyd gan mor hawdd oedd hi i ddefnyddio'r dyfeisiadau!

Roedd ein ffair Cyfnewidfa Lyfrau hefyd yn llwyddiannus iawn a dychwelodd nifer o ddefnyddwyr sawl gwaith yn ystod y dydd i weld beth roedd pobl wedi ei ffeirio. O ganlyniad i'r ymateb cadarnhaol hwn bydd GG yn cynnal ffair cyfnewid llyfrau unwaith y mis am y ddau fis nesaf!
Dyma'r dyddiadau ar gyfer cyfnewid llyfrau ar Lefel D Llyfrgell Hugh Owen: Dydd Iau 7 Mai 2009, Dydd Iau 4 Mehefin 2009

Matt Hunt (amh@aber.ac.uk), Fiona Eaton (fee@aber.ac.uk) & John Trevor-Allen (jot@aber.ac.uk) Llyfrgellwyr Graddedig dan Hyfforddiant.

## Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth

Wrth i'r Brifysgol gyflwyno System Rheoli Cynnwys y We, rhaid oedd sefydlu gweithdrefnau newydd i gynnal llif data Modiwlau a Chynlluniau Astudio o AStRA i we-dudalennau'r Brifysgol. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, bydd cynllun ac ymddangosiad y gwe-dudalennau dan reolaeth Tîm Gwe'r Brifysgol. Bellach mae'r weithdrefn newydd wedi'i sefydlu ar gyfer data Modiwlau ac fe'i defnyddir ar gyfer y Cynlluniau Astudio yn fuan. Mae trydydd cam y datblygiad yn ymwneud â Manylion Rhaglenni, ac i gefnogi'r maes hwn mae rhywfaint o ailwampio strwythurau data ar waith yn awr o fewn AStRA.
Ar hyn o bryd, mae gweinyddion cronfeydd data cyflymach newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer systemau GRhG. Mudwyd y system ariannu (QL) i'r gweinyddion newydd yn ystod mis Chwefror a bydd AStRA yn dilyn cyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

Laurence Dupont, Is-gyfarwyddwr, GRhG (lrd@aber.ac.uk)

## Hyfforddi E-ddysgu ar gyfer 2008/09

Datblygwyd cyfres estynedig o sesiynau hyfforddi e-ddysgu ar gyfer y flwyddyn academaidd 2008/9 i ganolbwyntio ar y technolegau sy'n ymddangos ac i fynd i'r afael â'r anghenion a fynegir gan staff (http://alto.aber.ac.uk/en/support/). Mae'r cyrsiau newydd yn canolbwyntio ar dorri ymaith o strwythur anhyblyg diofyn PowerPoint, defnyddio offer y Campus Pack Web 2.0 a ddisgrifir yn yr erthygl uchod a defnyddio offer llyfrnod cymdeithasol Delicious ar gyfer trefnu'ch gwe-lyfrnodau ar-lein a'u rhannu â myfyrwyr ac eraill. Mae'r pwyslais ar gynllunio pedagogaidd – sut i greu gweithgaredd dysgu effeithiol gan ddefnyddio'r offer.
Gallwch archebu eich lle trwy CDSYA. Rydym yn rhagweld y byddwn yn rhedeg cyfres gyffelyb o sesiynau hyfforddi yn y flwyddyn academaidd nesaf. Os oes gennych geisiadau am hyfforddiant ar bynciau sydd heb eu cynnwys yn y rhestr gyfredol, cysylltwch â'r Tîm E-ddysgu ar is-alto@aber.ac.uk.

Kate Wright, Swyddog Datblygu E-ddysgu (kaw@aber.ac.uk)

## Cynnal Gwasanaethyddion a Storfeydd

Ers dros bedair blynedd mae Gwasanaethau Gwybodaeth (GG) wedi darparu gwasanaeth cynnal poblogaidd i weinyddion adrannol arbenigol. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal 24 gweinyddydd. Mae'r gweinyddion hyn sy'n cael eu cynnal gan GG yn elwa o fod mewn ystafell gweinyddion amgylcheddol-bwrpasol, gyda mynediad corfforol diogel, system wrth gefn canolog ar y safle ac oddi arno, a darpariaeth cynnal a chadw gan staff medrus a phrofiadol GG. Mae hyn o fantais i'r adrannau gwasanaeth sydd angen gweinyddion ar gyfer cymwysiadau busnes arbenigol ac i'r adrannau academaidd ar gyfer eu gwaith ymchwil.
Mae GG yn ehangu'r gwasanaethau i gynnwys:

- Gweinyddion "Rhithwir" cynaledig – sy'n llawer mwy hyblyg ar gyfer gweinyddion adrannol ac yn rhatach
- Storio ffeiliau

Mae GG yn cefnogi'r farn y dylai gweinyddion a storfeydd corfforaethol PA gael eu cartrefu a'u rheoli'n ganolog i sicrhau eu bod yn cael y diogelwch gorau, dilyniant gwasanaeth a rheolaeth i sicrhau'r hyblygrwydd gorau ar gyfer gwasanaethau Prifysgol. Mae GG yn hapus i drafod y gofynion ar gyfer cynnal gweinyddion arbenigol neu storio i gefnogi ymchwil, addysgu a swyddogaethau gweinyddol y Brifysgol.

Tim Davies, Rheolwr Systemau Pendesg, tim.davies@aber.ac.uk)

## Paratoadau ar gyfer DIVERSE 2009

Mae'r Tîm Datblygu Rhwydwaith, yn ogystal ag arbenigwyr clyweled o fewn Gwasanaethau Gwybodaeth, wedi bod yn cydweithio â staff y Ganolfan Iaith a Dysgu a'r Swyddfa Gynhadledd i baratoi ar gyfer cynhadledd bwysig a gynhelir ym Mhrifysgol Aberystwyth yr haf hwn. Bydd y gynhadledd yn digwydd ar 24 – 26 Mehefin gan ddenu hyd at 180 o gynrychiolwyr o bob cwr o'r byd.
Mae gan DIVERSE (Datblygu Adnoddau Addysgol Gweledol Arloesol i Fyfyrwyr ym Mhob Man) enw da ledled y byd fel fforwm trafod ac arddangos y defnydd arloesol a wneir o systemau fideo, clywedol, fideo-gynadledda, podcastio, llifo, cydweithio ar-lein a'r holl bethau cysylltiedig. Mae hwn yn ddigwyddiad sy'n creu deialog ddynamig rhwng academyddion, athrawon, ymarferwyr a thechnegwyr. Cyn hyn, cynhaliwyd y gynhadledd yn Haarlem, yr Iseldiroedd; Lillehammer, Norwy, a Glasgow, a'r flwyddyn nesaf bydd yn symud i Portland, Maine, UDA.
Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr y gynhadledd am gael mynediad i wasanaethau rhyngrwyd diwifr, a llawer o'r cyflwynwyr am gael mynediad i gyfleusterau fideo-gynadledda, cyfleusterau cipio darlithiau a thechnolegau gweinyddion llifo. O'r herwydd, mae staff GG wedi bod yn helpu gyda chynlluniau a pharatoadau fel na fydd y gynhadledd yn effeithio ar rwydweithio staff a myfyrwyr PA, tra chynigir i gynrychiolwyr a siaradwyr y gynhadledd yr holl gymwysiadau y bydd eu hangen arnynt.
Y llynedd, yng Nghynhadledd DIVERSE yn Haarlam, bu Matthew Collins a Geoff Constable (o Rwydwaith Fideo Cymru, dan ofal GG) yn fideo-gynadledda'n fyw i John Morgan (LLC) o ben y tŵr Daearyddiaeth. John ddaeth â chynhadledd DIVERSE 2008 i ben a chroesawodd DIVERSE 2009 i Aberystwyth – gan ddangos golygfa o luniau byw o'r dref a'r arfordir. Fe ddaliodd eu lwc – munudau ar ôl y sesiwn fyw dechreuodd hi fwrw glaw yn drwm! Am fanylion llawn am y gynhadledd, ewch i www.aber.ac.uk/diverse.

Geoff Constable, Tîm Datblygu'r Rhwydwaith (ccc@aber.ac.uk)

DIVERSE 2009 Aberystwyth
Developing innovative visual educational resources for students everywhere

## Y Diweddaraf ar y Gwasanaeth Fideo-gynadledda

Gwnaed llawer o newidiadau i'r gwasanaeth fideo-gynadledda canolog sydd ar gael i'w archebu at ddefnydd holl staff PA. Y newid mwyaf sylweddol yw bod y stiwdio yn Llyfrgell Hugh Owen wedi'i moderneiddio gyda sawl nodwedd newydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Camerâu a sgriniau Diffiniad Uchel – sy'n dangos ac yn anfon llun llawer cliriach i'r gynhadledd;
- System fideo-gynadledda HD Tandberg fodern sy'n golygu y gall cyflwyniadau neu gyfraniadau eraill gael eu hanfon yr un pryd â delwedd y camera;
- Sgrin-gyffwrdd ddwyieithog lliw, mwy o faint, gyda delwedd rhagolygu yn gynwysedig;
- Mae'r sgriniau newydd yn fwy, yn fflat ac wedi'u gosod ar y wal – un cabinet yn unig sydd yma nawr – felly mae mwy o le yn y stiwdio;
- Mae'r ystafell wedi'i haildrefnu i ganiatáu mwy o hyblygrwydd a'i gwneud yn haws i anfon delwedd o bob cyfranogwr yn yr ystafell;
- Cyfrifiadur Personol newydd yn cynnwys Tandberg "See and Share"® sy'n ei gwneud yn haws i rannu dogfennau ayb;
- Opsiynau recordio mwy hyblyg (pen agosaf, pen pellaf neu'r ddau)
- Microffonau y gellir eu tawelu'n annibynnol;
- Y dewis o ficroffon bwrdd, microffon nenfwd, neu'r ddau;
- System rheoli pŵer sydd wedi lleihau'r defnydd o ynni yn y stiwdio yn sylweddol.

Bydd y rhai sy'n dymuno archebu fideo-gynhadledd ar gampws Gogerddan yn cael defnyddio stiwdio fodern gyda monitorau mawr, panel fflat a system High End fodern iawn a leolir yn Adeilad Stapledon. Mae'r stiwdios ym Maes Lowri a'r Adran Astudiaethau Gwybodaeth yn dal ar gael i staff, a'r cyfarpar gwreiddiol yn dal yn ddibynadwy ar ôl wyth mlynedd o wasanaeth. Cafwyd hefyd amryw newidiadau "tu ôl i'r llenni" i'r rhwydwaith fideo-gynadledda ac fe ddylai hyn wella ansawdd a phrofiad defnyddio'r stiwdios.
Mae manylion llawn am y stiwdios a sut i archebu lle, ayb., ar gael ar www.inf.aber.ac.uk/vidconf lle gwelwch hefyd dudalen newydd sy'n caniatáu i bob aelod o staff weld nid yn unig os yw'r stiwdios ym Mhrifysgol Aberystwyth ar gael ond hefyd yr holl stiwdios eraill sydd wedi'u cysylltu i rwydwaith JANET yn y DU.

Geoff Constable, Tîm Datblygu'r Rhwydwaith(ccc@aber.ac.uk)

## System Monitro Presenoldeb Myfyrwyr - SAMS

Er mwyn disodli presenoldeb Tweek (a ddilëir o'r gwasanaeth yn ystod haf 2009), mae staff y System Rheoli Gwybodaeth (SRhG) wedi datblygu System Monitro Presenoldeb Myfyrwyr (SAMS). Cafodd y system ei pheilota'n llwyddiannus mewn sawl adran yn ystod y flwyddyn. Cam nesaf y prosiect fydd sicrhau ei fod ar gael i'r holl adrannau sy'n defnyddio presenoldeb Tweek ar hyn o bryd, gan hyderu y bydd yr adrannau hyn yn gwneud defnydd llawn ohono ym mis Medi 2009.
I hwyluso'r broses hon, trefnir sesiynau hyfforddi. Ar y cychwyn bydd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar staff gweinyddol yr adrannau ac yn debygol o ddigwydd ddiwedd Mai neu ddechrau Mehefin. Dosbarthir manylion yn nes at yr amser.
Os hoffech drafod SAMS, neu'r opsiynau hyfforddi sydd ar gael i'r adrannau, cysylltwch â Leslie Johns (lej@aber.ac.uk).

Kate Wright, Swyddog Datblygu E-ddysgu (kaw@aber.ac.uk)

## E-Lyfrgell – POB Adnodd Mewn UN Lle

Ym mis Chwefror cafodd ein gwasanaeth eLyfrgell newydd ei gyflwyno'n fyw. Mae'r eLyfrgell yn seiliedig ar yr offer chwilio ffederal MetaLib o'r gwerthwr systemau llyfrgell blaenllaw, ExLibris.
Mae eLyfrgell yn caniatáu i chi chwilio llawer o adnoddau ar-lein ar yr un pryd trwy un rhyngwyneb sythweledol.
Mae'r cronfeydd data yn hwylus i'w defnyddio trwy restrau wedi'u grwpio a rydd i chi syniad sylfaenol am y pynciau y rhoddir sylw iddynt yn yr adnodd electronig. Fel arall, gallwch chwilio am adnodd penodol trwy restr A-Z o'r cronfeydd data sydd ar gael.
Dangosir canlyniadau'r chwiliad mewn rhestr datddyblygedig gyda'r opsiwn i gysylltu trwodd i'r testun cyflawn electronig lle bo ar gael. Mae ffasedau'n caniatáu i chi chwynnu canlyniadau chwiliad yn rhwydd, e.e. yn ôl dyddiad cyhoeddi neu bynciau.

Gallwch gael mynediad i'r eLyfrgell trwy wefan Gwasanaethau Gwybodaeth , neu'n uniongyrchol trwy fynd i http://elibrary.aber.ac.uk. Neu tynnwch lun o hwn â'ch ffôn symudol…

Christiane Kloos, Swyddog Systemau Llyfrgell (cek@aber.ac.uk)

## Ffonau: Trosglwyddo Protocol Llais dros y Rhyngrwyd

Aeth blwyddyn heibio ers i ni gyflwyno gwasanaeth llawn Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP), yn cysylltu ar y dechrau gyfnewidfeydd ffôn y Brifysgol yn y Brifysgol i'r gyfnewidfa ffôn ar Gampws Gogerddan. Ers hynny, mae Campws Gogerddan wedi newid drosodd yn gyfan gwbl i VoIP a nawr rydym hanner ffordd trwy flwyddyn gyntaf rhaglen drosglwyddo tair blynedd i symud gweddill gwasanaeth ffôn y Brifysgol drosodd i'r gwasanaeth VoIP.
Yn ystod y misoedd nesaf, bydd mwy o ardaloedd yn newid i ddefnyddio ffonau VoIP, a chyflwynir gwasanaethau ychwanegol i holl ddefnyddwyr VoIP.
Mae'r Gwasanaethau Ychwanegol yn cynnwys:

- Llinell Adnabod y Galwr / Caller Line Identity (CLI) ar gyfer galwadau allanol – ar gael eisoes ar Gampws Gogerddan; bydd y gwasanaeth hwn ar gael i ddefnyddwyr VoIP ar gampws Penglais a'r Hen Goleg yn fuan
- Lleisbost / Voicemail – Disgwylir i'r gwasanaeth hwn gael ei gyflwyno dros gyfnod gwyliau'r haf, a bydd yn defnyddio Microsoft Exchange i drosi negeseuon Lleisbost fel e-byst i'ch Mewnflwch.

Y gwasanaethau sydd eisoes ar gael ac a ddefnyddir yn helaeth gan ddefnyddwyr VoIP yw Extension Mobility lle gallwch 'fewngofnodi' i ffôn VoIP a chael mynediad i'ch estyniad ffôn, a chleient meddalwedd VoIP sy'n caniatáu i'ch Cyfrifiadur Personol/Gliniadur weithredu fel ffôn ar y gwasanaeth VoIP, naill ai ar rwydwaith y Campws neu o bell trwy gysylltiad band llydan.

Hefin James, Tîm Datblygu'r Rhwydwaith (ahj@aber.ac.uk)

## Tîm Golygyddol

Elgan Davies (epd), Jeremy Perkins (jwp), Monica Decelis (mwd), Mary Green (mcg), Jacqui Kenton (jck)
Christine Hughes (cmh), Jackie Woollam (jaw), Kate Wright (kaw)
Gwasanaethau Gwybodaeth, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, Penglais, Aberystwyth, SY23 3DZ.
Cyhoeddir NEWYDDION GG yn rhad ac am ddim gan Gwasanaethau Gwybodaeth ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth. Croesewir eich sylwadau a'ch syniadau. Os nad ydych wedi derbyn copi personol ohono ac y dymunwch gael un yn y dyfodol, gellir ychwanegu eich enw at y rhestr ddosbarthu drwy gysylltu â'r Golygydd (epd@aber.ac.uk).